

Cofnodion Cyfarfod y 5ed Gorffennaf 2016

Yn bresennol :- Y Cadeirydd Y Cynghorydd Elfed Williams, a'r Cynghorwyr, Phyllis Ellis, Rhian Evans, R. Hefin Williams, Euryrn Roberts, Sion Jones, Jane Pierce, Richard Ll. Jones, Idris Thomas,

Bu i ni groesawu Mr. Hywel James, a Ms. Catrin Thomas o Adran Dysgu Cymunedol, Cyngor Gwynedd

Gweddi: Offrymwyd gair o weddi gan Richard Ll. Jones

1. Ymddiheuriadau. Aled Green, Gwilym Williams

2. Datgan buddiant. Dim

Llyfrgelloedd:

Cyflwynodd Catrin Thomas ddiweddariad i ni ar sefyllfa y llyfrgelloedd. Mae'r adolygiad yn mynd ymlaen ers 2 flynedd. Esboniodd Catrin fod 25% yn llai o gyllideb yn dilyn Her Gwynedd ac eu bod yn edrych i wneud oddeutu 100mil o arbedion effeithlonrwydd.

Awgrymiad ydi cadw 9 Llyfrgell gyda cwtogi oriau, ynghyd a 4 llyfrgell gymunedol a chau y llyfrgell yn Harlech, Perrnrhyndeudraeth, Llanberis a Deiniolen a chynig Dolen Gymunedol yn y pentrefi hynny, a chwbl yw hynny ydi cyfrifiadur mewn adeilad o fewn y pentref gyda mynediad i gatalog o lyfrau i'w harchebu. A'r lori lyfrau symudol fel arfer. Y barn fawr ydi bod y Cyngor yn fodlon tynnu adnodd arall o gymuned dlawd.

Awgrymwyd i isbwyllgor gyfarfod i lunio llythyr ac ymateb y cyngor i hyn. Bydd angen ymateb cyn diwedd Gorffennaf.

Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau am ddod.

3. Cofnodion cyfarfod 28ain Mehefin 2016.

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Y clerc i yrru nodyn i ymddangos yn Eco'r Wyddfa bydd dyddiad cau derbyn ceisiadau am nawdd ar Fedi 30. Ni dderbynir yr un cais ar ôl hyn. Hefyd rhoi hysbyseb ar y wefan.

4. Cofnodion Cyfarfod 7fed Mehefin

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

5. Materion o'r cofnodion

Biniau Halen – Derbyniwyd llythyr o'r cyngor a gan Unllais ynglyn a'r biniau Halen.

Penderfynnu yn y diwedd gysylltu i dderbyn y cyngor i lenwi y biniau, ond atgoffa hwy ein bod wedi gofyn am adnewyddu 2 yn Rhiwlas, ac yn dal i ddisgwyl.

Llwybrau – Cafwyd eglurhad gan Unllais nad oes ddim cyfrifoldeb statudol arnom dros gynnal a chadw unrhyw lwybrau.

Llythyr Diolch – Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan brifathro

Ysgol Gynradd Rhiwlas am ein nawdd tuag at y gôst o gludo'r plant i gystadlu yn yr Urdd.

6. Gohebiaeth a materion eraill

Cynllun Adnau – Yn dilyn derbyn llythyr a dogfen sy'n tynnu ein sylw fod asesiad annibynnol wedi ei wneud ar effaith iaith o'r cynllun. Mae'r mudiad iaith yn gofyn am gefnogaeth i yrru yr asesiad annibynnol i'r arolygwyr. Penderfynwyd cefnogi y mudiad yn

y mater yma.

Holiadur Gwastraff Stryd – Derbyniwyd holiadur ar ein barn ar wastraff stryd, bydd y clerc yn gyrru yr holiadur wedi ei gwblhau yn ol.

6. Cynllunio

Penisarwaun WwTW – Gosod offer newydd, addasu'r wal a ffens terfyn ac ail leoli'r fynedfa bresennol.

Coed Bolyn Mawr, Bethel – Dymchwel Ty Annedd deulawr presennol a chodi ty newydd deulawr yn ei le.

Cefn y Braich, Rhiwlas – Codi estyniad deulawr ochor, newidiadau i'r blaen a codi lolfa haul ochor

Nant Efa – Codi Sied/gweithdy bren.

Ategodd Sion fod cynghorwyr ardal Bethel wedi cyfarfod i drafod effaith y newid yn y cynllun adnau. Bydd materion yr ardal yn cael eu trafod ym mis Medi. Yn dilyn o'r cyfarfod yma, mae'r cynghorwyr yn gyrru llythyr maes o law i bob tŷ yn yr ardal.

7. O gwmpas y Bwrdd

Brynrefail – Gwair angen torri gwair wrth mynedfa o Benisarwaun i Brynrefail ar y ffordd fawr.

Brynrefail a Rhiwlas – Llythyr i Wynedd yn mynegi ein diolch fod y gwair ar y caeau chwarae wedi ei dorri o'r diwedd, ac yn falch o hynny, ac yn edrych mlaen fel yr addewid i'w dorri bob mis o hyn ymlaen.

Lon Castell, Rhiwlas – Gwair ar hyd ochor y lôn heb ei dorri ac yn uchel. Pawb yn gorfod defnyddio y lôn yma yn ddiweddar oherwydd damwain ar gyffordd y lôn arall, a prin oedd neb yn gallu pasio, a bws yn sownd. Hefyd gwair tai newydd, a'r henoed yn croesi i ddal y bws angen ei dorri.

Cysgodfan Bws i Rhiwlas - cais gerbron, ydi posib rhoi hyn ar raglen mis Medi.

Bethel – Diolch i griw sy'n llnau sbwriel o gwmpas yn wythnosol

Llanddeiniolen – Troiad i Greenwood ger Gors Bach angen lôn ffilter yno yn enwedig a prysurdeb yr Haf – peryg i ddamwain ddigwydd.